COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNODEB O BENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLl 027

Amseru: Cyffredin – angen erbyn 1 Mawrth 2017
(Nodwch y dyddiad a pham, lle bo'n bosibl)

Teitl: Cyllid ar gyfer Mawrth Mawr

Categori'r Penderfyniad / Effaith ar Faes Busnes: Cyllid / Yr Iaith Gymraeg

Crynodeb Gweithredol:

Bydd hi'n ddyletswydd ar Heddlu Dyfed-Powys (HDP) a SCHTh i gydymffurfio â'r Safonau Cymraeg o 30 Mawrth 2017. Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a lansio'r gofynion a nodir yn y safonau, mae HDP yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled yr ardal heddlu. Bydd y digwyddiadau hyn hefyd yn cynnwys staff SCHTh. Darperir deunydd hyrwyddo sy'n esbonio'r safonau a sut i gydymffurfio. Bydd adnoddau hefyd ar gael i'w harddangos yn gyhoeddus er mwyn arddangos ein cydymffurfiaeth â'r safonau. Bydd HDP yn ariannu'r rhan fwyaf o'r gwariant, ond yn gofyn am gyfraniad o £1000 gan y CHTh.

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo cyfraniad o £1000 i Heddlu Dyfed-Powys er mwyn cefnogi deunydd hyrwyddo ar gyfer lansio'r Safonau Cymraeg.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Rwy'n cadarnhau fy mod i wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn ac yn cymryd y penderfyniad a gynigir mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 6/2/2017